Nodau Datblygu'r Mileniwm
Nod Datblygu'r Mileniwm 8 – Adeiladu partneriaeth ddatblygu fyd-eang

Gwybodaeth a gweithgareddau

Targed – Datblygu system fasnachol ac ariannol agored wedi'i seilio ar reolau, yn rhagweladwy a diragfarn.

Targed – Darparu cymorth datblygu swyddogol hael i wledydd sydd wedi ymrwymo at leihau tlodi.

Targed – Delio'n gyffredinol gyda phroblemau dyledion gwledydd sy'n datblygu.

Mae'r wythfed nod yn bwysig iawn gan ei fod yn ategu'r saith arall. Er ei fod yn hanfodol i wledydd sy'n datblygu gael llywio eu datblygiad eu hunain, a gweithredu polisïau i gyflawni'r saith nod arall, mae'r wythfed nod yn dangos beth fedrai'r byd ei wneud fel 'cymuned' i gynorthwyo'r datblygiad hwn.

Mae system masnachu'r byd yn annheg iawn ar hyn o bryd, ac yn rhagfarnllyd yn erbyn gwledydd sy'n datblygu. Gallai gwledydd sy'n datblygu lewyrchu drwy fasnach, pe bai'r rheolau'n cael eu gweithredu'n deg.

Mae'r wythfed nod hefyd yn galw am fwy a gwell cymorth. Dylid targedu cymorth at leihau tlodi, a dylid ei ddarparu am nifer o flynyddoedd ar y tro fel bod gwledydd sy'n datblygu yn medru gwneud cynlluniau addas.

Ffordd arall y gall gwledydd cyfoethog gynorthwyo yw dileu dyledion gwledydd sy'n datblygu. Gall y gwledydd cyfoethog fforddio hyn yn hawdd.

Pe bai gwledydd cyfoethog yn rhoi mwy o gymorth, diwygio masnach a dileu dyledion, gallai fod yn bosibl i'r byd gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm yn 2015.

Hawlfraint © Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig. Diweddarwyd Rhagfyr 2009.

Ymysg y gweithgareddau ar gyfer y nod hwn

Astudiaeth achos gwrthdystiad yn Llundain
Gwybodaeth am rali Rhoi Terfyn ar Dlodi yn Llundain, gydag anerchiadau gan Nelson Mandela a Bob Geldof.

Cyfran deg o'r elw?
Chwarae rôl am gyfraddau dosbarthiad elw o werthu banana.

A ddylai gwledydd tlawd ad-dalu eu dyledion?
Disgyblion yn edrych ar y drafodaeth am ad-dalu dyledion, ac ystyried eu hymatebion.

Taflen Waith Gweithredu

Disgyblion yn dweud eu barn am NDM 8

Mae Oxfam wedi ymrwymo i ddarparu'r gefnogaeth orau posibl i ysgolion a grwpiau ieuenctid, ac rydym am asesu effaith ein gwaith gyda phobl ifanc.

Defnyddiwch y slip isod i ddweud wrthym am eich gwersi neu brosiectau NDM neu anfonwch ebost at education@oxfam.org.uk

……✂……
……

Enw Athro:

Enw a Chyfeiriad yr Ysgol:

Cod Post:

Ebost*

Nifer o ddisgyblion sy'n dysgu am yr NDM:
Oedran disgyblion:

Disgrifiad addysg NDM:

Dychwelwch y slip hwn at:

Tîm Ieuenctid ac Ysgolion Oxfam
Oxfam House
John Smith Drive
Rhydychen OX4 2JY

*Nodwch eich cyfeiriad ebost er mwyn derbyn negeseuon gennym am ein prosiectau a'n gweithgareddau. Gallwch dynnu'ch enw oddi ar y rhestr ar unrhyw adeg. Hoffem eich hysbysu am ein prosiectau a'n gweithgareddau. Fodd bynnag, pe bai'n well gennych beidio derbyn gwybodaeth o'r fath, anfonwch ebost at changes@oxfam.org.uk, ffoniwch 0300 200 1300 neu ysgrifennwch at Cyswllt Cefnogwyr, Oxfam House, John Smith Drive, Rhydychen OX4 2JY.

Nod Datblygu'r Mileniwm 8 – Adeiladu partneriaeth ddatblygu fyd-eang

Targed – Datblygu system fasnachol ac ariannol agored ar sail rheolau, yn rhagweladwy a diragfarn.

Targed – Darparu cymorth datblygu swyddogol hael ar gyfer gwledydd sydd wedi ymrwymo at leihau tlodi.

Targed – Delio'n gynhwysfawr gyda phroblemau dyledion gwledydd tlawd.

Mae'r wythfed nod yn bwysig iawn gan ei fod yn ategu'r saith arall. Er ei fod yn hanfodol i wledydd sy'n datblygu lywio eu datblygiad eu hunain a gweithredu polisïau i gyflawni'r saith nod arall, mae'r wythfed nod yn canolbwyntio ar yr hyn y gallai'r byd ei wneud fel 'cymuned' i gynorthwyo'r datblygiad hwn.

Ar hyn o bryd mae system fasnachu'r byd yn annheg iawn, yn rhagfarnllyd yn erbyn gwledydd sy'n datblygu. Mae'n caniatáu i wledydd cyfoethog amddiffyn eu hunain, er enghraifft drwy roi cymorthdaliadau i ffermwyr. Gallai gwledydd sy'n datblygu lewyrchu pe bai'r rheolau'n cael eu gweithredu'n deg.

Mae'r wythfed nod hefyd yn galw am fwy a gwell cymorth. Ni all cymorthdaliadau ei hunain alluogi gwledydd tlawd i ymladd yn erbyn tlodi ac anghydraddoldeb, neu hyrwyddo cydraddoldeb rhyw, ond maent yn rhan bwysig o'r camau hyn. Fodd bynnag, mae lefelau cymorthdaliadau ar eu hisaf yn hanesyddol – yn 2007 roedd y cymorthdaliadau gan wledydd cyfoethog yn 0.28 y cant yn unig o'u hincwm, lefel is na 1993. Mae'r $104 biliwn o gymorth a roddwyd yn 2007 yn llai na deg y cant o'r gwariant milwrol byd-eang.[1] Pe bai gwledydd cyfoethog wedi cyflawni'r addewidion a wnaed yn 1970 i roi 0.7 y cant yn unig o'u hincwm, byddai'r cymhorthdal wedi bod yn $240 biliwn y flwyddyn honno. Hefyd dylai gwledydd ddarparu mwy o'u cymorthdaliadau yn uniongyrchol i lywodraethau gwledydd sy'n datblygu, lle bo'n bosibl, i alluogi'r gwledydd hynny i ddod yn wladwriaethau effeithiol sy'n amddiffyn hawliau eu dinasyddion ac yn darparu gwasanaethau hanfodol megis iechyd ac addysg. Hefyd rhaid rhoi cymorth ar sail tymor hir a dibynadwy.

Ffordd arall y gallai gwledydd cyfoethog gynorthwyo yw dileu dyledion gwledydd sy'n datblygu – rhywbeth y gellid ei fforddio'n rhwydd. Dylai gwledydd cyfoethog gydnabod eu cyfrifoldeb wrth greu'r dyledion hyn – mewn sawl achos maent wedi benthyg arian yn ddiegwyddor, yn aml i unbeniaid.

1 SIPRI bas data gwariant milwrol, www.sipri.org, 2005

Galw am newid

Bob blwyddyn bydd arweinwyr gwledydd cyfoethocaf a mwyaf grymus y byd yn cwrdd i drafod materion o bwysigrwydd i bobl o bob gwlad. Gelwir y grŵp hwn o genhedloedd yn G8.

Yn 2008, cyfarfu'r G8 yn Japan. Mae'r poster hwn yn dangos ymgyrchwyr Oxfam yn dal arwyddion yn y cyfarfod, yn dweud beth sydd angen ei newid er mwyn gwneud y byd yn le tecach. Er enghraifft, mae angen i wledydd cyfoethog roi mwy o gymorth, mae angen rhoi mwy o gymorth i bobl sy'n dioddef o HIV ac AIDS, ac mae angen i fwy o bobl gael mynediad at ofal iechyd sylfaenol ac addysg. Mae gwledydd cyfoethog yn rymus iawn: mae eu penderfyniadau yn effeithio ar fywydau miliynau o bobl, nid trigolion eu gwledydd eu hunain yn unig. Golyga hyn fod ganddynt gyfrifoldeb enfawr tuag at bobl dlawd y byd.

Gall bobl gyffredin mewn gwledydd cyfoethog gynorthwyo drwy sicrhau fod eu harweinwyr yn gwybod fod disgwyl iddynt weithredu i wneud y byd yn lle tecach. Yn uwchgynhadledd 2008 yn Japan, dywedodd Oxfam a mudiadau eraill wrth bapurau newydd a gorsafoedd teledu'r byd fod yr argyfwng bwyd, sy'n achosi newyn i filiynau o bobl, yn annerbyniol a diangen, ac eglurwyd mai rhan o'r rheswm amdano oedd biodanwydd (tyfu corn a chnydau eraill i wneud petrol yn hytrach na bwyd). Bydd gwrthdystio, ymgyrchu a galw am newid yn helpu i berswadio pobl rymus fod y mwyafrif ohonom am weld y byd yn well lle i bawb.

Gweithgaredd 8.1

Cyfran deg o'r elw? (9–14 oed)

Nod

- Cynorthwyo disgyblion i ddysgu 'pwy sy'n cael beth' mewn masnach ryngwladol a datblygu eu sgiliau ymholi.

Bydd angen

- Copïau o'r cardiau swyddi ar dudalen 5. Bydd pob disgybl mewn grŵp yn cael yr un cerdyn swydd.
- Dau ddarlun mawr o fananas i'w harddangos yn y dosbarth. Dylai un fod yn wag, y llall wedi'i rannu'n adrannau, yn ôl incwm gwahanol grwpiau, fel dangosir isod.

1. Rhannwch y dosbarth yn bum grŵp. Bydd pob grŵp yn cymryd un swydd. Rhowch ddigon o gardiau swyddi i bob grŵp fel bod pob disgybl yn medru eu gweld.
2. Dangoswch y llun mawr gwag o fanana a dywedwch wrth y dosbarth mai'r pris yw 30c.
3. Gofynnwch i bob grŵp benderfynu pa 'gyfran' y dylent ei dderbyn o gyfanswm pris y banana. Dylid ystyried y gwaith a gyflawnwyd, beth yw oblygiadau eu swyddi, a'r costau sydd ganddynt i'w talu.
4. Ar ôl pum munud, gofynnwch i bob grŵp gyflwyno'i achos. Nodwch y symiau ar y banana.
5. Os fydd y cyfanswm yn fwy na 30c, bydd angen trafodaeth rhwng y grwpiau i gytuno sut i rannu'r incwm rhyngddynt.
6. Nawr dangoswch y gwir gyfraddau incwm, gan ddangos y banana sy'n nodi gwir incwm bob grŵp.

7 Trafodwch y pwyntiau canlynol:

- Pwy sy'n cael beth?
- Sut mae'r tyfwyr yn teimlo?
- Pa gyfraddau fyddai'n decach?
- Sut gellid cael gwell bargen i'r tyfwyr?

Gwir ddosbarthiad incwm



Addaswyd y gweithgaredd hwn o *Go Bananas. Oxfam 2004*

Gweithgaredd 8.2

A yw cymhorthdal yn helpu? (11–14 oed).

Nod

- Annog disgyblion i feddwl am gymorthdaliadau

Bydd angen

- Ffeithiau Cymhorthdal ar dudalen 5

Nodyn: Bwriad y gweithgaredd hwn yw rhoi cyflwyniad byr i'r testun cymorthdaliadau.

1. Gofynnwch i'r disgyblion beth yw cymhorthdal a pham fod ei angen. Cadarnhewch fod pawb yn gwybod mai dyma'r arian y mae gwledydd cyfoethog yn ei roi i rai tlotach i gynorthwyo eu pobl.
2. Rhannwch y wybodaeth yn *Cymhorthdal – Ffeithiau* ar dudalen 5 a gofynnwch am ymateb y disgyblion. Efallai eu bod yn synnu. Dywedwch wrthynt fod cynyddu cymorthdaliadau yn hanfodol i gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm. Atgoffwch hwy fod arweinwyr y byd eisoes wedi addo cyflawni'r nodau hyn.
3. Trafodwch unrhyw bwyntiau sy'n codi o'r ffeithiau fel dosbarth. Am farn arall ar gymhorthdal, gallai'r disgyblion edrych ar y we. Gwefannau posibl: www.dfid.gov.uk (Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol y DU), http://news.bbc.co.uk/.

Cardiau Cyfran Marchnad

Tyfwr

Rydych yn ffermwr bychan sy'n tyfu bananas. Ar ôl plannu, mae'n cymryd naw mis i'r bananas fod yn barod i'w casglu. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rhaid eu hamddiffyn rhag niwed gan y tywydd, plâu a phlaladdwyr. I wneud hyn rhaid i chi orchuddio'r bananas â chynfasau plastig, ac mae'n rhaid i chi dalu amdanynt, a thalu am wrtaith a phlaladdwyr. Pan fo'r bananas yn barod i'w casglu, rydych yn eu torri â chyllell fawr, a'u pacio mewn blychau. Yna rydych yn eu cludo i'r porthladd yn eich fan.

Cwmni Bananas Ynysoedd y Gwynt

Rydych yn gwmni newydd, dan berchnogaeth ar y cyd rhwng pedwar llywodraeth Ynysoedd y Gwynt a mudiadau tyfwyr. Chi yw'r cysylltiad hanfodol rhwng y ffermwyr a'r byd mawr. Rydych yn gweithio i gael pris da am fananas y ffermwyr a phrisiau rhatach am allforio. Rydych yn prynu plaladdwyr, gwrtaith, blychau a chynfasau plastig mewn symiau mawr, ac yna'n eu gwerthu i'r ffermwyr. Rydych yn cynnig cyngor am dyfu bananas, a gallwch helpu i drefnu yswiriant. Mae Ynysoedd y Gwynt yn grŵp o ynysoedd yn ne'r Caribî.

Cwmni cludiant, mewnforio a phecynnu

Mae eich cwmni chi yn cludo'r blychau o fananas mewn llongau rheweiddiedig. Mae'n chwe diwrnod o daith o'r Caribî i'r DU. Pan fo'r bananas yn cyrraedd i'r DU, chi sy'n trefnu'r cludiant, yswiriant, trethi a thollau. Yna mae'r bananas yn aeddfedu ac yn cael eu pacio yn eich ffatri. Rhaid eu haeddfedu mewn ystafelloedd arbennig, a'u cadw ar dymheredd cyson am tuag wythnos. Yna maent yn cael eu dosbarthu mewn meintiau gwahanol. Mae rhai yn cael eu pwyso a'u prisio er mwyn eu gwerthu'n uniongyrchol i'r archfarchnadoedd. Mae eraill yn cael eu hailbacio i'w hanfon at gyfanwerthwyr.

Cyfanwerthwr

Rydych yn derbyn blychau o fananas aeddfed gan y cwmni pecynnu, ac yn eu gwerthu i siopau ffrwythau, stondinau marchnad ac archfarchnadoedd.

Adwerthwr

Rydych yn gwerthu'r bananas aeddfed yn eich siop neu stondin marchnad. Rhaid i chi eu gwerthu'n gyflym, cyn iddynt or-aeddfedu a throi'n frown.

Cymorthdaliadau - ffeithiau

Yn 1970, addunedodd tua 20 o wledydd cyfoethocaf y byd yn y Cenhedloedd Unedig i roi 0.7 y cant o'u hincwm cenedlaethol mewn cymorthdaliadau. Llond llaw sy'n gwneud hynny. Mae Norwy yn rhoi 0.92 y cant, yr UDA 0.16 y cant.

Mae'r DU yn rhoi 0.36 y cant o'i hincwm cenedlaethol mewn cymorthdaliadau.

Mae gwledydd cyfoethog yn rhoi hanner y cymhorthdal, fel cyfran o'u hincwm, ag yr oeddent yn y 1960au.

Rhaid i wledydd cyfoethog roi mwy o gymorthdaliadau os yw'r byd i gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm yn 2015.

Mae gwariant milwrol y DU chwe gwaith yn fwy na'i chymorthdaliadau.

Mae cymorthdaliadau yn arwain at ddatblygu. Oni bai am gymorth gan yr UDA ar ôl yr Ail Ryfel Byd, ni fyddai rhai gwledydd datblygedig yn Ewrop yn mwynhau eu safon byw gyfredol.

Roedd cymorthdaliadau o gymorth wrth waredu'r frech wen (afiechyd heintus) o'r byd.

Yn 2007, gwariodd gwledydd cyfoethog dair gwaith yn fwy ar ddŵr potel ($58 biliwn) nag ar gymorth i Affrica ($18 biliwn).

Ffynhonnell: Oxfam

Gweithgaredd 8.3

A ddylai gwledydd tlawd ad-dalu dyledion? (9–14 oed)

Nod

- Cynorthwyo disgyblion i ddeall beth yw ystyr dyledion gwledydd tlawd, a beth yw'r canlyniadau.
- Eu cynorthwyo i ystyried dileu dyledion.

Bydd angen

- Copïau o *Gwledydd tlawd a'u dyledion* isod

1. Trafodwch ddyledion yn gyflym gyda'r dosbarth. Ysgrifennwch y gair 'dyled' ar y bwrdd i weld pa eiriau eraill y mae disgyblion yn ei gysylltu gydag ef. Nodwch y geiriau, a heriwch unrhyw gamsyniadau. Ceisiwch ddefnyddio'r drafodaeth i egluro beth yw dyled. Cadarnhewch fod pawb yn deall y cysyniadau o ddyled, llog ac ad-daliadau dyled.
2. Cynhaliwch drafodaeth fer am y rhesymau dros fenthyg arian. A yw rhai pobl yn esgeulus wrth gynllunio'u cyllideb? A yw hyn yn wir am bawb sy'n benthyg arian? Sicrhewch fod disgyblion yn deall fod nifer o bobl yn benthyg arian i dalu am anghenion sylfaenol gan eu bod yn dlawd.
3. Dosbarthwch y copïau o *Gwledydd tlawd a'u dyledion* isod. Darllenwch gyda'r dosbarth, yna gofynnwch i'r disgyblion drafod y cwestiynau canlynol mewn grwpiau a chynnig adborth ar eu hatebion:
   - Beth fyddai'n digwydd pe na bai'n rhaid i wledydd tlawd ad-dalu eu dyledion? (Byddai ganddynt fwy o arian i'w wario ar wasanaethau fel ysbytai ac ysgolion i'w dinasyddion.)
   - A yw'n deg i ni ofyn i wledydd tlawd ad-dalu dyledion i rai cyfoethocach? (Gellid dadlau ei fod yn deg. Wedi'r cyfan, benthycwyd yr arian yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, maent yn llawer tlotach na ni, ac mae angen i'w llywodraethau wario'r arian ar eu pobl. Beth bynnag, a yw'n deg fod rhai pobl mor dlawd, ac eraill yn gyfoethog?)
4. Gall disgyblion hŷn gynnal mwy o ymchwil ar y testun hwn ac ysgrifennu crynodeb fer am y drafodaeth am ddyledion. Gall disgyblion iau ysgrifennu un neu ddwy o ffeithiau o'r blwch ffeithiau 'Dyled a thlodi' a'u darlunio.

Gwledydd tlawd a'u dyledion

Mae gwledydd tlawd mewn dyled i wledydd cyfoethog a mudiadau rhyngwladol. Maent yn defnyddio llawer o'u hincwm i dalu'r dyledion hyn, felly ni allant wario digon o arian ar ysgolion, ysbytai a gwasanaethau eraill i'w pobl eu hunain.

Dyled a thlodi

Mae rhai pobl yn dlawd iawn. Mae 1.2 biliwn o bobl y byd yn byw ar lai na 50c y dydd.

I gyflawni NDM ar iechyd, addysg, dŵr a glanweithdra, byddai angen $47 biliwn arall y flwyddyn. Mae hyn yn naw y cant o'r swm mae gwledydd sy'n datblygu yn ei wario i ad-dalu dyledion.

Rhaid i rai o wledydd tlotaf y byd barhau i ad-dalu dyledion. Er enghraifft, mae Bangladesh yn parhau i dalu $2 miliwn y diwrnod mewn ad-daliadau dyledion i wledydd cyfoethog.

Mae Nepal yn gwario saith gwaith cymaint ar ad-daliadau dyledion ag ydyw ar addysg. Ar hyn o bryd mae ganddynt un athro ar gyfer bob 180 o blant.

Mae lleddfu dyled yn gweithio. Ers dileu dyled Zambia yn 2005, mae'r llywodraeth wedi medru cyflwyno gofal iechyd am ddim i bobl cefn gwlad, gan ddileu ffioedd a oedd ar un adeg yn atal miliynau o bobl rhag derbyn gofal angenrheidiol.

A yw'n deg gofyn i wledydd tlawd ad-dalu eu dyledion a'r llog arnynt?

Llwyddiannau Masnach Byd-eang

Dileu Dyledion
Defnyddiodd **Mozambique** yr arian a arbedwyd o'r dyledion i frechu 1 miliwn o blant yn erbyn tetanws, y pas a diphtheria, yn ogystal ag adeiladu a rhoi trydan i ysgolion. Hefyd, mae Mozambique wedi buddsoddi yn y frwydr yn erbyn HIV/AIDS ac wedi defnyddio arbedion dyledion i agor 24 swyddfa profi a chynghori newydd gyda'r nod o agor 50 swyddfa o'r fath erbyn 2007.

Allforio sardinau o Periw
Gydag arian i dalu am gefnogaeth gyfreithiol roedd modd i Periw wyrdroi rheol Undeb Ewropeaidd a oedd wedi gwadu hawliau allforwyr sardinau rhag labelu eu cynnyrch fel sardinau.

Pan benderfynodd yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn 2001 mai'r *Sardina pilchardus walbaum,* y rhywogaeth sy'n nofio yn nyfroedd Ewropeaidd yn unig y gellid eu marchnata fel sardinau, golygai na ellid gwerthu *Sardinops sagax***,** ei berthynas o'r Môr Tawel, fel 'sardinau' mewn siopau yn Ewrop.

Gan weithio gyda chyfreithwyr a oedd yn codi graddfa is o $100 yr awr am gyngor cyfreithiol, llwyddodd Periw i herio penderfyniad y Gymuned Ewropeaidd fod 'sardinau' yn nofio mewn dyfroedd Ewropeaidd yn unig.

Dangoswyd fod 'sardinau' o'r Môr Tawel yn cael eu marchnata fel 'sardinau' yn y mwyafrif o farchnadoedd y byd. Dangosodd drwy gyfraith ryngwladol y gellid galw'r rhywogaeth an-Ewropeaidd, megis Sardinops sagax, yn 'sardinau' gyda chymal yn nodi'r ardal ddaearyddol. Bellach gallwch brynu sardinau o Periw ar silffoedd archfarchnadoedd Ewrop, gan helpu i ddatblygu economi Periw a darparu bywoliaeth ar gyfer rhai o ddinasyddion tlotaf America Ladin.

Sut i weithredu

Daeth llwyddiannau fel yr un uchod i fod drwy bartneriaeth rhwng gwledydd sy'n cyfrannu, fel y DU, a gwledydd sy'n datblygu, fel Mozambique a Periw. I sicrhau fod ein llywodraeth yn parhau i gefnogi prosiectau fel hyn, mae cyrff ymgyrchu anllywodraethol fel Oxfam yn atgoffa'r rhai mewn grym am eu haddewidion. Dyma rai awgrymiadau am gamau y gall myfyrwyr eu cymryd i gefnogi prosiectau fel hyn.

Camau

- Cyfranogi ym *Mhythefnos Masnach Deg* mis Chwefror 2010. www.thebigswap.org.uk
- Cwblhau taflen waith "Bananas!" ar dudalen 8
- Creu siarter ysgol yn gosod cyfrifoldebau a nodau'r ysgol yn y gymuned fyd-eang. Gellid ystyried o ble ddaw nwyddau eich ysgol ac os ydynt yn rai masnach deg, e.e. coffi, pensiliau ayyb.
- Ymgyrchu gydag ysgol arall i dynnu sylw at faterion masnach deg a phartneriaethau cynaliadwy. Gellid hyd yn oed gwahodd ysgolion cynradd lleol a'u haddysgu am faterion byd-eang

Codi arian

- Cynnal stondin masnach deg ym mhob digwyddiad allanol yr ysgol, e.e. cyngerdd Nadolig, mabolgampau ayyb.

NODER Cofiwch ein hysbysu am unrhyw gamau gennych chi neu'ch disgyblion. education@oxfam.org.uk

Am fwy o adnoddau Masnach Deg ewch at:

www.oxfam.org.uk/education/resources/coffee_chain_game

www.oxfam.org.uk/education/resources/looking_behind_the_logo

www.oxfam.org.uk/education/resources/milking_it

Dywedwch fod masnach annheg yn eich gyrru'n bananas!



1. Ysgrifennwch eich enw a'ch neges am Nod Datblygu'r Mileniwm 8.

2. Addurnwch y banana. Ystyriwch sut y gallech weithio'n well gydag eraill i helpu i greu byd tecach.

3. Torrwch eich bananas allan a chreu arddangosfa i eraill ei weld, neu anfonwch at:

Tîm Ieuenctid ac Ysgolion
Oxfam House
John Smith Drive
Rhydychen OX4 2JY

Fe wnawn yn siŵr fod eraill yn cael eich neges.